Powys County Council
Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities for the year ending 15 May 2019. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

Councillor: Jackie Charlton	**Tel:**
Ward: Llangattock	**Mobile:** 07976928061 **text only**
Shire: Brecknockshire	**Email:** cllr.jackie.charlton@powys.gov.uk
Group: Welsh Liberal Democrats	**Date:** September, 2019

Section 1: Role & Responsibilities

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:
Committees & attendance

I have now completed two years as a Councillor and it continues to be rewarding enabling me to represent Llangattock at the Council as a Welsh Liberal Democrat.

During the year I was invited to participate in the Welsh Local Government Leadership Programme, a highly respected course for councillors across England and Wales. Sessions were delivered during the year and the Graduation Ceremony takes place in June in Coventry. Specialist support and amazing networking opportunities with Councillors from across Wales enriched my understanding of supporting people in my ward and provided leadership training for the role of County Councillor. As a result my interest in social care delivery has been extended and will ensure that the role of scrutinising is much stronger now to support Powys as a social care provider across an enormous geographically diverse county.

As the Welsh Liberal Democrat lead on Disability in our group I continue to support equality issues ensuring the voice of different disability groups are heard and listened to on the Powys strategic agenda.

I served on the following outside organisations:
Llangattock Church in Wales School Governing Body
Monmouthshire and Brecon Canal Steering Group
Powys Community Health Council [CHC]
Powys Standing Advisory Council for Religious Education [SACRE]

Section 2: Constituency activity

My understanding of council business through the year with many interactions with people in Llangattock has improved. These contacts still relate to a range of complaints including speeding and parking issues to drains and refuge, litter, dog waste and council tax charges. Speeding is still the greatest concern through the village. As a result Powys Active Travel have a plan to deliver to Llangattock in 2019 which will be part of the Powys Active Travel Plan Project application to Welsh Government.

Every month I hold a surgery in the Community Hall and deliver a monthly newsletter to residents which is posted on all notice boards, on the Community Council website and my Facebook page. I intereact regularly with residents on Nextdoor which has over 190 members now. Many conversations highlight what people are thinking, both good and bad.

I work very closely and actively with the Community Council on issues which directly affect residents including recreation ground improvements and a Village Vision. I have also worked very closely with Councillors in Crickhowell, Cwmdu/Bwlch and Llangorse on issues which affect us all including better interaction as a Five Councils body.

Section 3: Learning & Development

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:-
Member development & seminars

The Women's Equality Network approved my application as a County Councillor to retain the role of Mentor for 2019 and I am now supporting an active campaigner from Newtown in her ambitious proposal to enter politics as either a County Councillor in Powys or perhaps even an AM. It remains a very rewarding role and all learning will be shared with Powys Democratic Services to support others who may wish to undertake such a role.

As an appointed Governor of Llangattock Church in Wales Primary I continue to attend mandatory training and found this crucial for the role. Understanding the needs of our local school is very important to the village and brings links for both the role of a County Councillor and as a governor of the school.

As a voting Member of Powys Community Health Council representing Powys County Council I have also attended bespoke training this year and received other support for that role including participating in peer review and contributing to the strategic plan.

The various Committees such as Health & Care Scrutiny Committee (Vice Chair), Public Service Board Scrutiny Committee and Democratic Services have provided extra learning and development opportunities. Supporting and developing a Personal Safety guide for Members developed by the Democratic Services Committee and attending the Scrutiny Co-ordinating Working Group delivering major changes in Scrutiny Committees in Powys which was heavily criticised in an Audit Report.

Section 4: Outside organisations and other activities

Powys Community Health Council is undergoing development as a result of a White Papers delivered by Welsh Government to change the structure and delivery of CHC's in Wales. This new body will undertake similar activities now in Social Care which will require greater participation from County Councillors in future, working closely with this organisation. Holding the Health Board to account is an important role for the CHC but they also have a strong team of advocates who support individuals who have health care complaints. This will become increasingly important as the County Council and Health Board continue to follow through with closer working and active partnership.

Cyngor Sir Powys
Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 15 Mai 2019. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd: Jackie Charlton	**Ffôn**
Ward: Llangatwg	**Ffôn symudol:** 07976928061 **testun yn unig**
Sir: Frycheiniog	**E-bost:** cllr.jackie.charlton@powys.gov.uk
Grŵp: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	**Dyddiad:** Medi 2019

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: Pwyllgorau a phresenoldeb

Erbyn hyn rwyf wedi cwblhau dwy flynedd fel Cynghorydd ac mae cynrychioli Llangatwg yn y Cyngor fel aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn parhau i roi boddhad mawr i mi.

Yn ystod y flwyddyn cefais fy ngwahodd i gymryd rhan mewn Rhaglen Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol Cymru. Cwrs uchel ei barch yw hwn ar gyfer cynghorwyr ar draws Cymru a Lloegr. Cynhaliwyd sesiynau drwy'r flwyddyn a chynhelir y Seremoni Raddio ym mis Mehefin yng Nghofentri. Roedd y gefnogaeth arbenigol a gefais a'r cyfleoedd rhwydweithio rhyfeddol yno'n cyfoethogi fy nealltwriaeth o sut mae cefnogi pobl yn fy ward. Hefyd cefais hyfforddiant ar gyfer rôl Cynghorydd Sir. Fel canlyniad rwyf wedi ymestyn fy niddordeb mewn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rôl craffu yn gryfach o lawer o hyn ymlaen i gefnogi Powys fel darparwr gofal cymdeithasol ar draws sir sydd ag amrywiaeth daearyddol enfawr.

Fel arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar Anabledd yn ein grŵp, rwy'n parhau i gefnogi materion cydraddoldeb gan sicrhau bod llais gwahanol grwpiau anabledd yn cael ei glywed. Yn ogystal rwy'n sicrhau bod eu llais yn cael gwrandawiad teg ar agenda strategol Powys.

Rwyf wedi gwasanaethu ar y sefydliadau allanol canlynol:
Corff Llywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg
Grŵp Llywio Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu
Cyngor Iechyd Cymuned Powys [CHC]
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Powys ar gyfer Addysg Grefyddol

Adran 2: Gweithgareddau yr etholaeth

Mae fy nealltwriaeth o fusnes y Cyngor wedi gwella trwy gydol y flwyddyn ac rwyf wedi rhyngweithio gyda llawer o bobl yn Llangatwg. Mae'r cysylltiadau hyn yn ymwneud â

chwynion gwahanol. Mae'r rhain yn amrywio o faterion goryrru a pharcio i ysbwriel a draeniau, baw ci a thaliadau treth y cyngor. Goryrru yw'r pryder mwyaf o hyd yn y pentref. O ganlyniad mae gan Deithio Llesol Powys fwriad i gyflawni cynllun i Langatwg yn 2019. Bydd hwn yn rhan o gais Prosiect Cynllun Teithio Llesol Powys i Lywodraeth Cymru.
Rwy'n cynnal cymhorthfa bob mis yn y Neuadd Cymunedol ac yn cynhyrchu cylchlythyr misol i drigolion. Mae hwn yn cael ei roi ar hysbysfyrddau, gwefan y Cyngor Cymunedol a fy nhudalen Facebook. Rwy'n rhyngweithio'n rheolaidd gyda trigolion ar Nextdoor sydd ag 190 o aelodau bellach. Mae llawer o sgyrsiau yn dangos beth mae pobl yn ei feddwl, yn dda ac yn ddrwg.

Rwy'n cydweithio'n agos iawn ac yn weithgar gyda'r Cyngor Cymunedol ar faterion sy'n effeithio ar breswylwyr yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i dir hamdden a chwarae a Gweledigaeth i'r Pentref. Rwyf hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chyngorwyr yng Nghrughywel, Cwmdu/Bwlch a Llangors ar faterion sy'n effeithio ar bob un ohonom. Mae'r rhain yn cynnwys rhyngweithio'n well fel corff Pum Cyngor.

Adran 3: Dysgu a Datblygu

Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
Seminarau a Datblygu Aelodau

Cymeradwyodd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched fy nghais fel Cynghorydd Sir i barhau gyda rôl Mentor ar gyfer 2019. Rwyf bellach yn cynorthwyo ymgyrchydd gweithredol o'r Drenewydd yn ei chynnig uchelgeisiol i fynd i mewn i fyd gwleidyddiaeth, un ai fel Cynghorydd Sir ym Mhowys neu Aelod Seneddol hyd yn oed. Mae'n parhau i fod yn rôl gwerthfawr a bydd yr holl ddysgu'n cael ei rannu gyda Gwasanaethau Democrataidd Powys i gynorthwyo eraill a fyddai efallai am ymgymryd â rôl o'r fath.

Fel un o Lywodraethwyr penodedig Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg rwy'n dal i fynychu'r hyfforddiant gorfodol ac wedi cael hwn yn gwbl angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'r rôl. Mae deall anghenion ein hysgol leol yn bwysig iawn i'r pentref ac yn dod â chysylltiadau i rôl y Cynghorydd Sir ac fel rôl llywodraethwr ysgol.

Fel Aelod sy'n pleidleisio ar Gyngor Iechyd Cymuned Powys sy'n cynrychioli Cyngor Sir Powys, mynychais hyfforddiant wedi'i deilwra eleni a chael cefnogaeth ar gyfer y rôl honno. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid a chyfrannu at y cynllun strategol.

Trwy'r amrywiol Bwyllgorau fel y Pwyllgor Craffu Gofal ac Iechyd (Is-gadeirydd), Pwyllgor Craffu Bwrdd gwasanaethau Cyhoeddus a Gwasanaethau Democrataidd cefais gyfleoedd ychwanegol i ddatblygu a dysgu. Rwyf wedi cefnogi a datblygu canllaw Diogelwch Personol i Aelodau a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mynychais y Gweithgor Cydlynu Craffu a oedd yn ysgogi newid mawr yn y Pwyllgorau Craffu ym Mhowys a gafodd beirniadaeth lem mewn Adroddiad Archwilio.

Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill

Mae datblygiadau'n mynd rhagddynt yn Nghyngor Iechyd Cymunedol Powys. Mae hyn o ganlyniad i Bapuarau Gwyn a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru i newid strwythur a chyflawniad Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru. Bellach bydd y corff newydd hwn yn gwneud gweithgareddau tebyg ym maes Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn gofyn am fwy o gyfranogiad gan Gynghorwyr Sir yn y dyfodol gan weithio'n agos gyda'r sefydliad hwn. Mae'n hynod bwysig bod y Cyngor Iechyd Cymunedol yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn atebol am eu gwaith. Ond hefyd bod ganddynt dîm cryf o eiriolwyr sy'n cefnogi unigolion y mae ganddynt gwynion am ofal iechyd. Fe ddaw hyn yn fwyfwy pwysig wrth i'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd barhau i roi sylw dilynol i gydweithio agosach a phartneriaethau cedyrn.